cwmpas

# Cwmpas x Oriel Mission

**Astudiaeth Achos**

Prosiect masnachol gan
Dwf Busnes ac
Ymgynghoriaeth.

Mission Gallery

# Mae Cwmpas wedi bod yn cefnogi Oriel Mission, oriel gelf yn Abertawe, i werthuso ei phrosiect cydweithredol gyda'r elusen ddigartrefedd, Crisis.

Bu Jenny Phillips, Ymgynghorydd Masnachol a Chynigion Cwmpas, yn gweithio'n agos iawn gyda Megan Leigh, Rheolwr Allgymorth Oriel Mission, i roi arweiniad a chymorth ar y ffordd orau o werthuso a chofnodi data yn unol â gofynion y Cyllid Celfyddydau, Iechyd a Lles gan Gyngor Celfyddydau Cymru..



**Jenny Phillips**

Ymgynghorydd: Twf Busnes a Chyflawni, Cwmpas

Mae Jenny yn arbenigo mewn gwerthuso prosiectau o fewn Cwmpas, mae ganddi 20 mlynedd o brofiad cyfunol mewn rheoli prosiectau yn y sector gwirfoddol, prosesu, dadansoddi a delweddu data gyda Phrifysgol Abertawe a darparu cymorth cynhwysiant digidol ledled Cymru.

### Beth yw gwerthusiad?

Yn nodweddiadol, bydd gwerthusiad yn archwilio prosiect, ymgyrch neu sefydliad yn feirniadol trwy gasglu a dadansoddi data er mwyn gwella effeithiolrwydd. Ond yma yng Nghwmpas, nid yw ein Gwasanaeth

Gwerthuso yn broses sy'n addas i bawb ac nid yw ein gwerthuswyr yn archwilwyr, felly byddant yn teilwra eu gwerthusiad i gyd-fynd orau â'ch prosiect.

**Gwasanaethau Gwerthuso gan Cwmpas**

## Mae ein tîm yn cynnal gwerthusiad ôl-gyllid/grant ac yn darparu dadansoddiad o'r allbynnau a'r canlyniadau yn erbyn yr amcanion.

Ein nod yw datgelu'r gwerth a ddarperir gan gyllid a dangos yr effaith a'r canfyddiadau, gyda:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Arweiniad a chyngor ar brosiectau
- Cydweithio â phartneriaid prosiectau
- Profi, dysgu a rheoli newid
- Sesiynau gweithdy
- Casglu a dadansoddi data
- Dadansoddi canlyniadau a dysgu allweddol
- Adroddiad Terfynol gydag argymhellion






Photo credit: Mick Lobb

## Chefndir

Gyda hanes sy'n ymestyn dros bron i bum degawd, daeth Oriel Mission yn sefydliad proffesiynol a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2003. Fel rhan o'i Chyllid Celfyddydau, Iechyd a Lles, roedd yn ofynnol i Oriel Mission gynnal gwerthusiad o'r modd yr aeth y prosiect i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ymhlith unigolion digartref; roedd ei thrywydd cwestiynu yn ymwneud â'r syniad o sut gall celf weithredu fel cyfrwng i wrthweithio unigrwydd yn y rhai yr effeithir arnynt gan ddigartrefedd.

Roedd y prosiect yn adeiladu ar adroddiad a oedd eisoes yn bodoli gan Crisis yn 2016, fel yr eglura Megan: "Roedd y cydweithio rhwng Oriel Mission a Crisis yn gysylltiad naturiol gan y gall celf, yn hawdd, hwyluso dod â phobl at ei gilydd a brwydro yn erbyn unigrwydd. Ond gwyddem y byddai angen cymorth arnom gyda'r elfen werthuso gan ein bod am sicrhau ein bod yn dod o fan diogel. Rydym yn gweithio gydag unigolion agored i niwed ac roeddem am ddod â gwerthuswr proffesiynol i mewn ar gyfer hyn."

## Ein gwaith gydag Oriel Mission

Mae bwrdd Oriel Mission wedi derbyn nifer o sesiynau ymgynghori busnes gan Carl Gough, un o'n hymgynghorwyr busnes, a gwyddai eu bod "eisiau rhywun a fyddai'n dod i mewn gydag agwedd naturiol a dymunol iawn," fel yr ymhelaetha Megan. Daethpwyd â Jenny i'r prosiect a sicrhawyd ei bod yn integreiddio ei hun yn llawn fel rhan o dîm Oriel Mission a Crisis.

Dywed Jenny:

"Yn ystod gwerthusiadau, mae'n hanfodol peidio â dod i mewn ag agenda a dweud wrth y tîm beth allan nhw ac na allan nhw ei wneud. Mae'n bwysig gwrando er mwyn canfod beth sydd ei angen o'r gwerthusiad. Gan fod y prosiect hwn yn ymwneud â pherthnasoedd, fe wnes i'n siŵr fy mod i'n meithrin perthynas gref gyda'r tîm cyfan er mwyn i ni allu cael y gorau o'r prosiect gyda'n gilydd."

Sefydlodd Jenny y berthynas hon ymhellach drwy fynychu'r gweithdai, a bu hyn yn gymorth i sefydlu Theori Newid i dynnu allan nodau ac amcanion y prosiect. I ddechrau, roedd Megan a'r tîm eisiau mesur y data yn ansoddol, ond awgrymodd Jenny, a phenderfynodd gweddill y tîm, mai adrodd straeon mynychwyr y gweithdai fyddai'r canlyniad gorau yn y pen draw.

Dywed Megan eto:

"Roedd awgrym Jenny o adrodd straeon yn newid mawr i'r prosiect, oherwydd daeth yn amlwg yn gyflym nad oedd y ffordd yr oeddem yn casglu data drwy holiaduron yn mynd i weithio. Roedd Jenny yn naturiol gyda'r aelodau, roedden nhw wir eisiau siarad â hi ac fe wnaeth hynny'r broses gyfan yn un ddi-dor."

## Yr effaith

Trwy allu Jenny, Megan a'r timau i addasu'n gyflym i'r broses werthuso newydd, cafodd y prosiect fudd o gynhyrchu sawl stori gan aelodau a oedd yn gyfoethog o ran manylder a datblygiad personol. Mae'r dull hwn, yn lle'r dull ansoddol mwy traddodiadol, yn golygu bod gan Oriel Mission a Crisis bellach ganlyniadau hygyrch y gellir eu rhannu'n hawdd. Ond datgelodd gwerthusiad Jenny fwy na dim ond straeon hynod ddiddorol yr aelodau.

Esbonia Megan: "Roedd gwerthusiad Jenny yn cynnig rhywfaint o ddysgu ymarferol iawn y gallai sefydliadau eraill ei ddefnyddio ac y bydd yn rhaid i ni fwrw ymlaen ag ef.

"Roedd rhoi allfa i'r aelodau ar gyfer eu straeon yn bwerus iawn, ac er ein bod wedi dod at ddiwedd y prosiect, gwnaeth Jenny waith gwych o nodi cyllidwyr posibl y dyfodol, ac mae nodi'r llwybrau eraill hyn o ble y gallem fynd â'r prosiect hwn yn ddefnyddiol iawn.

"Mae cynnal gwerthusiad yn fewnol yn cymryd llawer o amser ac ymdrech, ond roedd cael ychydig o gymorth ac arbenigedd ychwanegol Jenny yn gwneud i ni i gyd deimlo ein bod ni mewn dwylo diogel a chymerodd y pwysau oddi arnom fel y gallem ganolbwyntio ar ddarparu gweithdai."

### Cyngor i fusnesau eraill sydd am ddefnyddio gwasanaeth gwerthuso ar gyfer eu prosiect

Mae Megan yn cynghori bod gwrando ar yr holl bartneriaid ac aelodau'r tîm yn rhan hanfodol o'r broses werthuso; mae gan bawb eu harbenigedd a'u set sgiliau eu hunain.

Dywedodd Megan yn gryno:

"Byddwn yn argymell yn fawr y dylai sefydliadau eraill weithio ochr yn ochr â Chwmpas os oes angen gwerthusiad arnyn nhw. Mae ethos Cwmpas yn cyd-fynd ag un Oriel Mission gan ein bod ni'n dau yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Nid oedd y gwerthusiad yn un oer a chlinigol; roedd yn hynod fuddiol ac yn broses y byddwn yn ei chynnwys yn ein holl brosiectau cymunedol yn y dyfodol."

→

cwmpas

Chwiliwch am **Cwmpas**
ar y cyfryngau cymdeithasol

Ffôn: 0300 111 5050
E-bost: info@cwmpas.coop
Gwefan: cwmpas.coop